Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# First Steps Day Nursery (Rhos-on-Sea) Limited

**1 Llandudno Road**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Conwy**
**LL28 4TR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â First Steps Day Nursery (Rhos-on-Sea) Limited

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | First Steps Day Nursery (Rhos-on-Sea) Limited |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Rebecca Nicholson |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Rebecca Nicholson |
| Person â chyfrifoldeb | Rebecca Nicholson |
| Nifer y lleoedd | 56 |
| Ystod oedran y plant | Dan 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n derbyn cyllid ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau/amseroedd agor | 7.45am – 5.30pm dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan AGC | 18 Mehefin 2019 |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan Estyn | Chwefror 2014 |
| Dyddiad yr arolygiad hwn | 07/06/2022 |
| Cynhaliwyd ymweliad arolygu hefyd ar 08/06/22 | |

## Diffyg cydymffurfio

**Nodwyd diffyg cydymffurfio difrifol gennym mewn perthynas ag Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac rydym wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth i'r darparwr.**

**Mae gwybodaeth am yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cryno ar weithredu a gwella, a fydd yn cael ei anfon ar wahân i'r adroddiad gan AGC.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau a chyfleoedd a arweinir gan yr oedolion a'r rhai a arweinir gan y plant

A2 Datblygu mwy o gyfleoedd i'r plant fod yn annibynnol a gwneud eu penderfyniadau a'u dewisiadau eu hunain

A3 Sicrhau bod y plant yn cael mynediad at adnoddau sy'n naturiol ac adnoddau sy'n cefnogi eu chwilfrydedd, eu gallu i ddatrys problemau a'u creadigrwydd

A4 Sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Caiff bron pob un o'r plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau, er enghraifft wrth ddewis o'r adnoddau sydd ar gael yn eu hystafelloedd priodol. Mae rhai plant yn cael cyfleoedd i archwilio gwahanol ardaloedd yn rhydd wrth i ymarferwyr ofyn a ydynt yn dymuno chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Mae llawer o'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan eu bod yn gwybod bod y rhan fwyaf o'r hyn maent yn ei ddweud yn cael gwrandawiad ac ymateb priodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfleu a mynegi eu hanghenion gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu geiriol a dieiriau, er enghraifft dangos eu bowlen wag i ymarferydd fel ffordd o gyfleu yr hoffent gael mwy.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda â gwahanu oddi wrth eu rhieni. Mae llawer o'r plant newydd yn ymgartrefu'n dda gan eu bod yn cael eu croesawu, gyda'r rhan fwyaf yn cael y cysur a'r cymorth sydd eu hangen. Mae hyn yn eu helpu i ymlacio a theimlo'n fodlon yn eu hamgylchedd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ffurfio cysylltiadau cadarnhaol ag ymarferwyr ac yn mynd atynt am gysur pan fydd angen. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu cyfeillgarwch sy'n bwysig iddyn nhw, ac maent yn chwilio'n weithredol am eraill y maen nhw'n dymuno chwarae ochr yn ochr â nhw neu eistedd wrth eu hymyl, er enghraifft wrth ddewis ffrind i eistedd gydag ef amser cinio.

Mae bron pob un o'r plant yn cydweithio'n dda ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u cyfoedion ac ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf yn barchus ac yn defnyddio'r teganau a'r adnoddau yn briodol. Mae'r plant yn deall ac yn dilyn y drefn yn dda, er enghraifft ffurfio llinell pan ofynnir iddynt wneud hynny gan ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos empathi a pharch at eraill trwy ddefnyddio'r lle a'r adnoddau ar y cyd. Mae'r plant yn dangos gofal ac yn dechrau deall teimladau eraill. Er enghraifft, pan oedd un plentyn wedi cynhyrfu, cynigiodd plentyn arall gysur drwy ei gofleidio er mwyn ceisio ei helpu i deimlo'n well.

Mae mwyafrif y plant yn cymryd rhan yn briodol yn eu chwarae a'u dysgu. Fodd bynnag, nid yw pob plentyn yn gallu dilyn ei ddiddordebau a dewis gweithgareddau yn rhydd. Mae llawer o'r plant yn mwynhau rhai o'r gweithgareddau dan arweiniad oedolion a gynllunnir, er enghraifft wrth ymuno â chaneuon a rhigymau neu wrando ar stori. Mae bron pob un o'r plant yn rhannu eu profiadau gydag eraill yn hyderus, gan ddangos mwynhad wrth siarad am yr hyn y maent yn ei wneud a'r hyn y maent yn hoffi ei wneud. Er enghraifft, dywedodd grŵp o blant eu bod wrth eu bodd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau crefft. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau eu hamser a'u profiadau yn yr awyr agored, yn chwarae gemau pêl a reidio ar y treiciau a'r sgwteri.

Caiff y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfleusterau toiled a bwydo eu hunain. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i'r plant ddewis gweithgareddau'n rhydd a gwneud penderfyniadau ynghylch ble maen nhw eisiau chwarae neu fod yn annibynnol yn gyfyngedig. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu ystod o sgiliau yn briodol. Er enghraifft, mae gan y plant hynny nad ydynt yn cerdded eto fynediad at adnoddau sy'n cefnogi eu datblygiad corfforol, trwy dynnu eu hunain i fyny i safle sefyll neu geisio cerdded.

## Dysgu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant tair neu bedair oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn unman arall yn rhy fach i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad:

Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu'r plant rhag niwed, gan gynnwys sut i ymateb i bryderon amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dilyn arferion effeithiol, gan gadw plant yn ddiogel ac yn iach, er enghraifft glanhau byrddau ar ôl eu defnyddio a sicrhau bod y plant yn ymolchi eu dwylo'n aml. Darperir bwyd maethlon ac mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod hoffterau a gofynion y plant yn hysbys ac yn cael eu bodloni. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn cefnogi datblygiad corfforol y plant yn dda trwy ddarparu cyfleoedd i'r plant fod yn egnïol a chael awyr iach yn ystod yr amser a gynlluniwyd iddynt allu cael mynediad i'r ardaloedd awyr agored.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn dda ac yn gyson. Maent yn defnyddio canmoliaeth yn briodol i ddathlu cyflawniadau a gwobrwyo rhyngweithiadau priodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio canmoliaeth i annog plentyn iau a oedd yn dysgu yfed o gwpan. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fod yn garedig a chymryd eu tro. Er enghraifft, maent yn defnyddio iaith briodol pan fydd dau blentyn eisiau'r un eitem o'r gegin chwarae rôl, a daeth ymarferydd o hyd i eitem debyg er mwyn iddynt allu chwarae gyda'i gilydd. Mae'r ymarferwyr yn annog ac yn cefnogi'r plant i fod yn gwrtais, gan eu hatgoffa mewn ffordd briodol i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Fodd bynnag, weithiau mae nifer ac anghenion y plant, a'r ymarferwyr sydd ar gael, yn ei gwneud yn anodd iddynt fod yn gyson yn y gofal a ddarperir ganddynt. Er enghraifft, ar adegau mae'r plant yn cael eu cinio pan fydd yr ymarferwyr ar gael yn rhwydd yn hytrach na'r adeg sydd orau i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu rhai adnoddau a gweithgareddau addas. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn hyderus i ganiatáu i'r plant fod yn rhydd i ddewis a chyfeirio eu chwarae. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau yn effeithiol i gofnodi ac olrhain datblygiad y plant.

## Addysgu ac asesu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu effeithiol sy'n diwallu anghenion a diddordebau'r plant yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ardal chwarae rôl ag adnoddau da i adeiladu ar ddealltwriaeth y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu eu dealltwriaeth am y byd wrth iddynt esgus bod yn filfeddyg yn gofalu am anifeiliaid. Mae hyn yn datblygu sgiliau rhifedd y plant wrth iddynt fesur a phwyso anifeiliaid tegan yn bwrpasol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio chwarae

dychmygus i ddatblygu sgiliau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn dda, wrth iddynt wneud apwyntiadau a thrafod amseroedd a phrisiau wrth siarad ar y ffôn ac wrth ddefnyddio cyfrifiadur. Fodd bynnag, mae argaeledd a chyfleoedd i'r plant brofi chwarae rhydd yn gyfyngedig ac mae'r ymarferwyr yn dibynnu'n ormodol ar brofiadau wedi'u cynllunio i'r plant gymryd rhan ynddynt. Maent yn datblygu sgiliau cyfathrebu'r plant yn dda, er enghraifft wrth siarad am yr anifeiliaid a nodi bod gan eu ci goes ddolurus ac efallai y bydd angen pelydr-X.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cardiau apwyntiad yn yr ardal chwarae rôl ac yn cofnodi sgoriau pan fydd y plant yn yr awyr agored. Mae hyn yn annog y plant i ddeall pwrpas gwneud marciau mewn ffordd ystyrlon. Mae'r ymarferwyr yn adeiladu ar ddiddordeb y plant mewn llyfrau a'u gwybodaeth amdanynt yn dda trwy ddarllen storïau sy'n berthnasol i brofiadau'r sesiwn. Mae hyn yn annog y plant i edrych ar lyfrau yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol trwy gyfleoedd heriol sy'n hwyl ac yn gyffrous. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu eu gallu i gropian, cydbwyso, neidio a rhedeg gyda mwynhad amlwg. Maent yn adeiladu ar ddiddordeb y plant mewn anifeiliaid a'u gwybodaeth amdanynt trwy gydol y sesiwn. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd heriol sy'n datblygu sgiliau echddygol manwl y plant, er enghraifft defnyddio siswrn i ddatrys papur o amgylch teils rhif a thynnu traciau mewn tywod. Mae hyn yn annog y plant i ddefnyddio'r adnoddau i ymestyn eu dealltwriaeth ac i herio ei gilydd.

Mae ystod ddefnyddiol o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn dda. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o syndod a rhyfeddod yn llwyddiannus pan fydd y plant yn plannu hadau ac yn trafod tyfiant. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd llwyddiannus i'r plant ddysgu gofalu am anifeiliaid gwyllt. Er enghraifft, maent yn trafod sut y gall gwastraff yn y môr frifo morfilod ac anifeiliaid eraill. Mae hyn yn annog y plant i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o ailgylchu.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth effeithiol o ddatblygiad plant. Maent yn egluro pethau'n glir ac yn modelu gweithgareddau yn bwrpasol. Mae'r ymarferwyr yn deall sut i gefnogi'r plant yn dda, er enghraifft defnyddio ystod o strategaethau defnyddiol i annog datblygiad iaith o fewn profiadau chwarae yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn darparu sesiwn wedi'i strwythuro'n dda sy'n cynnwys ystod o brofiadau defnyddiol y tu fewn a thu allan. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant heb eu datblygu digon.

Mae gan y lleoliad system asesu effeithiol sy'n datblygu dysgu'r plant ym mhob maes. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella trwy arsylwi gofalus a rheolaidd. Maent yn nodi meysydd ar gyfer datblygiad yn ddefnyddiol ac yn ymyrryd yn sensitif i sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd yn eu dysgu. Maent yn cofnodi safbwyntiau a syniadau'r plant yn gywir. Mae hyn yn llywio'r cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan roi ymdeimlad o gysylltiad i'r plant yn yr hyn maent yn dysgu amdano. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sgyrsiau anffurfiol yn rheolaidd i hysbysu'r rhieni'n dda am y profiadau y mae'r plant yn eu cael a'r cynnydd a wnânt yn ystod sesiynau.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn monitro'r mynediad diogel i'r safle ac yn sicrhau bod gatiau diogelwch yn cael eu defnyddio'n briodol i atal y plant rhag mynd i fannau fel y grisiau heb oruchwyliaeth. Mae'r ymarferwyr yn dilyn asesiadau risg effeithiol ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes unrhyw beryglon newydd. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda'r holl wiriadau diogelwch gofynnol ar waith, gan gynnwys profion tân a thrydanol. Mae ymarferion tân rheolaidd yn sicrhau bod ymarferwyr a phlant yn ymwybodol o sut i adael yr adeilad mewn argyfwng. Mae'r tu allan wedi'i ddatblygu'n ddiweddar, gan ddarparu mannau addas a diogel i'r plant. Mae’n creu gofod iddynt fod yn egnïol a dysgu am y byd o’u cwmpas, gydag ardal ar wahân yn benodol ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau ac annog bywyd gwyllt.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n darparu digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r lleoliad wedi'i drefnu fel bod y plant yn gallu cael eu grwpio yn ôl eu hoedran a chyfnod eu datblygiad. Mae lle ychwanegol ar gael ar gyfer crefftau a chwarae blêr. Fodd bynnag, ni all y plant gael mynediad i'r lle hwn yn rhydd, sydd yn cyfyngu ar yr adegau pan allant fod yn greadigol. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd i ddarparu ardaloedd gyda pheth darpariaeth i ddatblygu dychymyg y plant. Er enghraifft, ardal a grëwyd fel desg heddlu fel rhan o'r pwnc am y bobl sy'n ein helpu. Nid yw'r argaeledd o ddarpariaeth barhaus yn gyson ar draws y feithrinfa ac mae angen datblygu hyn ymhellach. Mae'r ardal awyr agored yn ddeniadol ac yn cynnwys gweithgareddau ac adnoddau addas i gefnogi'r plant.

Mae'r teganau a'r adnoddau sydd ar gael ym mhob ystafell yn addas ar gyfer oedran a chyfnodau datblygiad y plant. Er enghraifft, mae offer yn ystafell y babanod yn eu cefnogi nhw i ddatblygu eu synhwyrau, gydag eitemau sy'n cynnwys metel, peli sgleiniog a theganau cerddorol. Mae'r trefniadau storio yn effeithiol o ran cadw'r adnoddau'n lân, eu cynnal a'u cadw'n dda, a sicrhau eu bod yn hygyrch i'r ymarferwyr. Fodd bynnag, nid oes llawer o leoedd storio y rhoddir caniatâd i'r plant gael mynediad atynt yn annibynnol. Mae gan yr amgylchedd ddodrefn o faint addas a chyfleusterau megis byrddau a chadeiriau a thoiledau. Mae hyn yn annog y plant i fod yn annibynnol ac yn helpu sicrhau eu bod nhw'n gyfforddus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sef datblygu plant hapus trwy amgylchedd gofalgar a diogel sy'n annog y plant i ddatblygu yn unol â’u potensial. Mae’r arweinwyr yn gweithio’n effeithiol gyda’r ymarferwyr i ddarparu amgylchedd sy’n galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau corfforol, cymdeithasol a deallusol yn effeithiol. Mae’r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda’r ymarferwyr trwy gyfarfodydd rheolaidd bob dydd. Mae hyn yn galluogi'r holl ymarferwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hysbysu'n dda am anghenion y plant.

Mae gan y rheolwr ddisgwyliadau uchel a brwdfrydedd i ddatblygu'r gwaith o ofalu am ddatblygiad y plant ym mhob maes. Mae trefniadau addas ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ar waith. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi nodi’r ardal awyr agored fel maes i’w wella, ac mae cyflwyno’r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir wedi galluogi’r ymarferwyr i gynllunio gan ddefnyddio profiadau chwarae

priodol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn caniatáu i'r plant wneud penderfyniadau am eu chwarae yn ystod y sesiynau.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o gymhwysiad y cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â rhieni ac i rannu’r profiadau y mae’r plant wedi cymryd rhan ynddynt. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol gyda'r rhieni, yn ceisio eu barn yn rheolaidd, ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i gefnogi dysgu a llesiant y plant. Er enghraifft, mae trefniadau cadarn gyda'r ysgolion bwydo sy’n cefnogi’r plant wrth iddynt symud i’r cam nesaf yn eu haddysg. Mae perthynas gadarn ag athro/athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac mae'r arweinwyr yn ymateb yn effeithiol i argymhellion ar gyfer gwelliant.

Mae bron pob un o’r ymarferwyr yn ymdrechu i wella eu perfformiad trwy gyfleoedd hyfforddi sy’n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant, megis wrth drosglwyddo i’r cwricwlwm newydd. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd addas o’r broses arfarnu i nodi gofynion hyfforddi, ac mae hyn yn arwain at ymarferwyr yn datblygu eu sgiliau mewn ystod o agweddau sy’n cefnogi’r plant yn dda. Yn gyffredinol, mae’r arweinwyr yn rheoli'r staff yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y lleoliad yn cael y nifer gofynnol o ymarferwyr trwy gydol yr holl sesiynau.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd da o adnoddau i gefnogi llesiant, chwarae a dysgu'r plant yn effeithiol. Mae adnoddau digonol o ansawdd da. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n dda fel tîm. Er enghraifft, maent yn cefnogi ei gilydd pan fo angen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (https://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/08/2022